At sylw: Ymgynghorai Ysgolion Y Groeslon, Carmel a Bronyfoel

17eg Rhagfyr 2012

Annwyl gyfaill,

Modelau Addysgol Ysgolion Y Groeslon, Carmel a Bronyfoel:
Ymgynghoriad Cyhoeddus - Asesiad Effaith Cymunedol

Mae Cyngor Gwynedd wedi penderfynu blaenoriaethu trafodaethau lleol darpariaeth addysgol yn ardaloedd Y Groeslon, Carmel a Bronyfoel (Y Fron). Fel rhan o'r gwaith hwnnw rydym yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ran y Cyngor i gasglu barn am effaith cymunedol y modelau dan sylw.

Y 2 model addysgol a gytunwyd gan y Panel Adolygu yw:

Model 1: Creu Ysgol Ardal 1 safle yn unai (i) Y Groeslon neu (ii) Carmel.

Model 2: Creu Ysgol Ardal 2 safle yn unai (i) Y Groeslon a Carmel, (ii) Carmel a Bronyfoel neu (iii) Y Groeslon a Bronyfoel.

Dyma wahoddiad i chi gyfrannu i'r ymgynghoriad cyhoeddus trwy gwblhau a dychwelyd yr holiadur sydd hefo'r llythyr hwn rhwng **17eg Rhagfyr 2012 a 25ain Ionawr 2013**, os gwelwch yn dda. Gallwch ddychwelyd yr holiadur naill ai trwy:

- e-bost at Dylanbryn@yahoo.co.uk
- trwy'r post i Cambria, 41 Brynffynnon, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4SJ, neu
- adael copi o'r holiadur yn Ysgol Y Groeslon, Carmel neu Bronyfoel i'w gasglu ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori.

Yn ogystal mae modd cwblhau'r holiadur ar lein trwy fynd i linc https://www.surveymonkey.com/s/GCBDyffrynN. Hyrwyddir yr ymgynghoriad cyhoeddus yma ar safle gwe Cyngor Gwynedd http://gwynedd.gov.uk/trefniadaethysgolion Addysg a'r newyddlen addysg diweddaraf.

Ar ddiwedd yr ymgynghoriad cyhoeddus byddwn yn paratoi Adroddiad gwrthrychol fydd yn crynhoi'r farn gyhoeddus am y modelau darpariaeth addysgol. Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i bwyso a mesur pa fodel sydd fwyaf priodol i'r ardal hon.

Rwy'n mawr obeithio y byddwch yn manteisio ar y cyfle i fynegi barn.

Yn gywir,

Dylan Bryn Roberts
Cyfarwyddwr Gweithredol
Gweriniaith: Gwasanaethau Cynllunio Ieithyddol a Chymunedol
07989 393 445

Amg. Atodiad A: Holiadur

HOLIADUR ASESIAD EFFAITH CYMUNEDOL YSGOLION Y GROESLON, CARMEL A BRONYFOEL (DYFFRYN NANTLLE)

Mae'r holiadur hwn i'w gwblhau gan unigolion, rhieni, teuluoedd, grwpiau neu sefydliadau sydd â diddordeb yn nyfodol disgyblion ac addysg yn Y Groeslon, Carmel a Bronyfoel. Mae angen ateb POB cwestiwn, os gwelwch yn dda. Wnawn ni ddim datgelu na rhannu enwau unrhyw un sy'n llenwi holiadur.

C1: Gwybodaeth Cyffredinol

1.1 Eich enw llawn (ac os yn berthnasol, y corff rydych yn ei gynrychioli):	Enw:	Corff:

1.2 Rydych yn...					
1. Aelod o'r gymuned	2. Rhiant	3. Llywodraethwr Ysgol	4. Gweithiwr cyflogedig	5. Cynghorydd lleol	6. Arall

1.3 Hefo pa Ysgol ydych/oeddech chi'n gysylltiedig?	1. Y Groeslon	2. Carmel	3. Bronyfoel

1.4 Pa fodel addysg ydych chi'n gefnogi?				
1. Ysgol Ardal 1 safle yn Y Groeslon	2. Ysgol Ardal 1 safle yng Ngharmel	3. Ysgol Ardal 2 safle yn Y Groeslon a Carmel	4. Ysgol Ardal 2 safle yng Ngharmel a Bronyfoel	5. Ysgol Ardal 2 safle yn Y Groeslon a Bronyfoel

C2: Cymuned – Iaith a Bywyd cymdeithasol yr Ysgol

2.1 Pa effaith gaiff y model hwn (ateb i gwestiwn 1.4) ar y canlynol?			
2.1.1. Defnydd a sgiliau iaith Cymraeg disgyblion?	1. Cadarnhaol	2. Negyddol	3. Dim effaith
2.1.2. Defnydd cymunedol o'r Gymraeg?	1. Cadarnhaol	2. Negyddol	3. Dim effaith
2.1.3. Teuluoedd lleol?	1. Cadarnhaol	2. Negyddol	3. Dim effaith
2.1.4. Amser siwrnai ysgol gyffredinol?	1. Cadarnhaol	2. Negyddol	3. Dim effaith
2.1.5. Y gallu i gasglu disgyblion o'r Ysgol neu o weithgareddau ar ôl ysgol?	1. Cadarnhaol	2. Negyddol	3. Dim effaith
2.1.6. Pentrefi eraill lle gallai'r Ysgol leol gau?	1. Cadarnhaol	2. Negyddol	3. Dim effaith

2.2 Os yw Ysgol neu Ysgolion yn cau beth sydd angen ei wneud hefo'r adeiladau?

C3. Cymunedol – Effaith Economaidd

3.1 Pa mor bwysig ydy'r Ysgol leol (ateb i gwestiwn 1.3. uchod) i economi'r ardal? Ticiwch un yn unig.		
1. Pwysig iawn	2. Pwysig	3. Eithaf pwysig
4. Dim yn bwysig iawn	5. Dim yn bwysig o gwbl	6. Ddim yn gwybod

3.2 Ydy'r Ysgol leol yn helpu i gadw poblogaeth yr ardal (yn arbennig teuluoedd a phobl ifanc)?		
1. Ydy	2. Nac ydy	3. Ddim yn gwybod

3.3 Pa effaith fyddai cau Ysgolion yn ei gael ar y canlynol?			
3.3.1. Gwerth tai lleol?	1. Cadarnhaol	2. Negyddol	3. Dim effaith
3.3.2. Gwasanaethau lleol?	1. Cadarnhaol	2. Negyddol	3. Dim effaith
3.3.3. Yr economi leol?	1. Cadarnhaol	2. Negyddol	3. Dim effaith

3.4 Pa effaith fyddai Ysgol Ardal newydd ar 1 neu 2 safle yn ei gael ar y canlynol?			
3.4.1. Gwerth tai lleol?	1. Cadarnhaol	2. Negyddol	3. Dim effaith
3.4.2. Gwasanaethau lleol?	1. Cadarnhaol	2. Negyddol	3. Dim effaith
3.4.3. Yr economi leol?	1. Cadarnhaol	2. Negyddol	3. Dim effaith

3.5 Sut mae modd lleihau unrhyw effeithiau negyddol posibl cau Ysgol?

3.6 Pa gyfleoedd newydd all godi hefo Ysgol Ardal newydd ar 1 neu 2 safle?

Diolch yn fawr am gwblhau'r holiadur hwn.

I'w ddychwelyd unai:

- **trwy e-bost at Dylanbryn@yahoo.co.uk**
- **trwy'r post i Cambria, 41 Brynffynnon, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4SJ neu**
- **trwy adael copi yn Ysgol Y Groeslon, Carmel neu Bronyfoel erbyn dydd Gwener 25ain Ionawr, 2013**